Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cynlluniau Gwirfoddoli: Cwestiynau Cyffredin

01

## Pa gynlluniau gwirfoddoli sydd ar gael?

**Llysgenhadon Ieuenctid** – Caniatáu i bobl ifanc gael llais ar faterion plismona a throseddu yn ardal Dyfed Powys.

**Rhwydwaith Ymgysylltu â Dioddefwyr-Goroeswyr**– Sicrhau bod dioddefwyr trosedd yn cael eu cefnogi'n briodol drwy gydol y gweithdrefnau cyfiawnder troseddol.

**Panel Sicrhau Ansawdd** – Sicrhau tryloywder o ran prosesau ac ymwneud yr heddlu gyda'r cyhoedd.

**Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa** – Gwarantu bod unigolion a gedwir yn y ddalfa'n cael eu trin yn deg ac yn derbyn eu hawliau.

**Ymwelwyr Lles Anifeiliaid** – Sicrhau gofal priodol ar gyfer cŵn yr heddlu.

02

## A fyddaf i'n gwirfoddoli i Heddlu Dyfed Powys neu i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu?

Byddwch yn gwirfoddoli ar ran Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Byddwch hefyd yn gweithio ochr yn ochr â Heddlu Dyfed Powys.

03

## Sut allaf i ymgeisio ar gyfer cynllun gwirfoddoli?

Llysgenhadon Ieuenctid:

Rhwydwaith Ymgysylltu â Dioddefwyr-Goroeswyr:

Panel Sicrhau Ansawdd:

Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa:

Ymwelwyr Lles Anifeiliaid:

04

## Cymhwysedd

Rhaid i bob gwirfoddolwr:

- Fod yn 18+
- Fyw yn ardal Heddlu Dyfed Powys
- Gwblhau fetio (gall hyn gymryd hyd at 3 mis)
- Fod yn barod i deithio i/o leoliad gwirfoddoli

Rhaid bod Llysgenhadon Ieuenctid rhwng 16-25 oed.

05

## A fyddaf yn cael fy nhalu?

Gan fod hwn yn swydd wirfoddoli, ni fyddwch yn cael eich talu. Byddwch yn cael ad-daliad ar gyfer costau teithio ar gyfradd o 45c y filltir.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cynlluniau Gwirfoddoli: Cwestiynau Cyffredin

**06**

## Pa mor aml fydd raid i fi wirfoddoli?

**Llysgenhadon Ieuenctid** – Yn ôl y galw e.e. digwyddiadau/cyfarfodydd.
**Rhwydwaith Ymgysylltu â Dioddefwyr-Goroeswyr** – Yn ôl y galw.
**Panel Sicrhau Ansawdd** – Cyfarfodydd bob dau fis.
**Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa** – Rota, felly gall oriau newid.
**Ymwelwyr Lles Anifeiliaid** - o leiaf 1 ymweliad bob chwe mis i bob hyfforddwr a bennwyd i chi.

**07**

## A yw gwirfoddoli'n hyblyg?

Ydi, mae gwirfoddoli'n hyblyg ond bydd gofyn i chi roi gwybod i SCHTh o flaen llaw os nad ydych yn gallu bod yn bresennol.

**08**

## A fydd angen i fi dderbyn hyfforddiant cyn cychwyn?

Bydd, darperir hyfforddiant cyn bod y gwirfoddoli'n cychwyn. Bydd gofyn i chi fynychu. Darperir hyfforddiant drwy gydol eich amser yn gwirfoddoli hefyd, os oes angen.

**09**

## A allaf i wirfoddoli os oes angen addasiadau rhesymol arnaf?

Gallwch, gellir cymryd rhan ym mhob cynllun gwirfoddoli hyd yn oed os oes angen gwneud addasiadau rhesymol. Bydd gofyn i chi roi gwybod i'r swyddfa ynghylch unrhyw addasiad cyn cychwyn.

**10**

## A oes unrhyw fuddion i wirfoddoli ar y cynlluniau hyn?

Bydd pob gwirfoddolwr yn ennill credydau Amser Tempo – mae hyn yn caniatáu i wirfoddolwyr wario credydau ar weithgareddau, cynnyrch neu wasanaethau penodol fel gwobr am wirfoddoli.
Mae gwirfoddoli hefyd yn ffordd wych o gyfarfod â phobl newydd sydd â diddordebau tebyg i chi.
Rydych yn cyfrannu at wneud gwahaniaeth i staff yr heddlu, anifeiliaid yr heddlu, a'r cyhoedd.
Os oes gennych ddiddordeb penodol yn y system cyfiawnder troseddol, gall wirfoddoli ochr yn ochr â Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys ganiatáu i chi ennill mewnwelediad gwerthfawr i'r system.

> **"Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rôl mor bwysig wrth adeiladu ymddiriedaeth a thryloywder mewn plismona. Mae eich gwaith caled yn cael ei werthfawrogi a'i gydnabod bob dydd, rydw i'n diolch i bob un gwirfoddolwr am bob awr y maen nhw'n ei roi."**

**Dafydd Llywelyn,**
**Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

